# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 4 Mawrth 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Julia Hughes, Anne Mellor ac Ian Trigger (Cadeirydd) ynghyd â'r Cynghorwyr Barry Mellor a David Jones

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW), Dirprwy Swyddog Monitro (LJ), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Bill Cowie a’r Aelod Annibynnol Paula White

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2015.

**Cywirdeb:-**

Tudalen 15 - Eitem 10: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd – yr Aelod Annibynnol Anne Mellor oedd yn bresennol yng nghyfarfod Arbennig y Cyngor Sir ar 7 Hydref 2015, nid Julia Hughes.

Tudalen 8 - Eitem 5: Cofnodion - dywedodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes y byddai'n fwy priodol cyfeirio ati yn y cofnodion fel "Dysgwr Cymraeg cryf" yn hytrach na "Siaradwr Cymraeg".

Tudalen 13 - Eitem 9: Hygyrchedd Gwybodaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned – newid y cyfeiriad at "Efenected" i "Efenechtyd".

**Materion yn codi -**

Ymddiheurodd y Swyddog Monitro nad oedd wedi symud ymlaen â nifer o gamau gweithredu yn y cofnodion mor brydlon ag y byddai wedi hoffi. Sicrhaodd yr

aelodau fod materion mewn llaw ac y byddai’n bwydo yn ôl yn uniongyrchol i'r aelodau ar hynny o fewn y pythefnos nesaf. **[GW i weithredu]**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod am ymddeoliad Cadeirydd Fforwm Safonau Gogledd Cymru dros ddeuddeg mis yn ôl ac roedd wedi bod yn siomedig i nodi nad oes unrhyw gyfarfodydd newydd wedi eu cynllunio ers hynny. O ganlyniad, cytunodd y Swyddog Monitro i gysylltu â'r gweinyddwyr gyda’r nod o atgyfodi'r Fforwm ac awgrymodd y Cadeirydd y dylid cael cyfarfod cychwynnol yn Neuadd y Sir, Rhuthun. **[GW i weithredu]**

Tudalen 14 - Eitem 9: Hygyrchedd Gwybodaeth gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned – dywedodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes eu bod wedi cytuno gyda swyddogion yn dilyn hynny y byddai'n darparu diweddariad llafar yn y cyfarfod. Roedd hi wedi paratoi adroddiad a fyddai'n cael ei gylchredeg ar ôl y cyfarfod ond nid oedd ar ffurf adroddiadau ffurfiol y Cyngor. **[JH / GW i weithredu]**

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir.*

## 5 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i’w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2016 (Rhif 2016/84) - Mehefin
- Gorchymyn Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 (Rhif 2016/85) - Mehefin
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Llyfr Achos y Cod Ymddygiad - Mehefin
- Mesur Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) - Mehefin/Medi
- Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Medi
- Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru - Medi

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar ychwanegu’r uchod, bod y Pwyllgor Safonau’n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2015/16 i’w ystyried cyn ei gyflwyno i’r Cyngor llawn. Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith y pwyllgor yn ystod 2015/16.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Swyddog Monitro am ei gwaith caled wrth baratoi'r adroddiad ac yn ystod trafodaeth cytunwyd ar y newidiadau canlynol -

- newid y cyfeiriad at y "Parchedig Wayne Trigger" ym mharagraff 4.5 i'r "Parchedig Wayne Roberts
- cynnwys crynodeb o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan 2015
- symud yr eitem adrodd yn manylu ar adborth o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan o 18 Medi i 4 Rhagfyr 2015 ym mharagraff 4.4
- ychwanegu'r eitem yn adrodd ar Hygyrchedd Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned i'r cyfarfod ar 18 Medi 2015 ym mharagraff 4.4

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y farn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gallai Egwyddorion Nolan fod wedi dyddio gyda sylw annigonol yn cael ei rhoi i arweinyddiaeth a'r angen am hyfforddi arweinwyr yn fwy effeithiol. Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Cyngor wrthi'n datblygu strategaeth arweinyddiaeth i'w thargedu at gynghorwyr yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 y gellid eu dwyn gerbron y pwyllgor i'w hystyried. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi cyfeirio at yr angen i flaenoriaethu'r adnoddau prin oedd ar gael iddo a allai gael effaith ar waith y Pwyllgor Safonau. Nododd yr Aelodau y byddai gwaith y Pwyllgor Safonau yn cynyddu ymhellach pe bai moeseg a chwythu'r chwiban hefyd yn dod o fewn ei gylch gorchwyl fel oedd wedi digwydd mewn awdurdodau eraill gan gynnwys Caerdydd a Wrecsam. Cytunodd y Pwyllgor i ymgorffori barn yr Ombwdsmon ynghylch arweinyddiaeth a blaenoriaethu adnoddau yn Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd er mwyn rhoi syniad ynghylch yr hyn y gellid ei ddisgwyl yn y dyfodol.

Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i baratoi drafft diwygiedig i'w gymeradwyo gan y Cadeirydd cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. **[LJ i weithredu]**

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylai'r aelodau nodi'r adroddiad ac argymell bod y Cadeirydd yn ei chyflwyno i'r Cyngor llawn.*

## 7 HYGYRCHEDD GWYBODAETH GAN GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED.

Cyfeiriodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) at yr archwiliad gwirfoddol yr oedd hi wedi ymgymryd ag o i asesu hygyrchedd gwybodaeth o wefannau pob un o'r 37, Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych o safbwynt y cyhoedd. Dyma rai o'r meysydd a archwiliwyd a'r wybodaeth a geisiwyd:-

- darpariaeth gwefan a'i hygyrchedd
- argaeledd cofnodion y cyfarfod blaenorol
- manylion am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod nesaf a mynediad i raglenni
- darpariaeth dwyieithog
- nodiadau cyffredinol gan gynnwys dolenni i wefannau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru

Atgoffwyd yr aelodau fod y canfyddiadau'n darparu clip-olwg ar y pryd a allai fod wedi newid a dywedodd yr edrychwyd ar y gwefannau mewn tri chyfnod – 15 – 17 Medi, 2015 (10 gwefan); 3 Rhagfyr, 2015 (19 gwefan) a 3 Mawrth, (8 gwefan). Rhoddodd JH adroddiad llafar ar ganfyddiadau'r 8 gwefan terfynol yr ymwelwyd â hwy a oedd yn cynnwys – Cyngor Cymuned Nantglyn, Cyngor Tref Prestatyn, Cyngor Tref Rhuddlan, Cyngor Tref y Rhyl, Cyngor Tref Rhuthun, Cyngor Dinas

Llanelwy, Cyngor Cymuned Trefnant, a Chyngor Cymuned Tremeirchion, Cwm a'r Waen. Byddai copi o ganfyddiadau'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu i aelodau yn dilyn y cyfarfod. **[JH / GW i weithredu]**

Yna cyflwynodd JH adroddiad trosolwg o'r gwaith a wnaed ar draws y 37 Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych a dyma'r prif ganfyddiadau –

- roedd sawl gwefan yn bodoli ond wedi hen ddyddio
- ni oedd llawer o'r gwefannau'n ddwyieithog
- roedd rhai gwefannau wrthi'n cael eu datblygu
- dim ond rhaglenni safonol nad oedd yn newid o gwbl oedd gan sawl cyngor
- roedd gwefannau'r Cynghorau Tref yn fwy datblygedig ar y cyfan
- roedd rhai safleoedd yn enghreifftiau ardderchog i ardaloedd eraill eu defnyddio pe baent yn dymuno
- Nid yw llawer o safleoedd yn gysylltiedig neu nid oedd ganddynt y manylion diweddaraf ar wefan Sir Ddinbych – www.moderngov.denbighshire.gov.uk
- roedd rhai safleoedd wedi'u cysylltu â www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-ac.htm (safle Llywodraeth Cymru), ond roedd llawer heb eu cysylltu iddo.
- roedd rhai cynghorau'n defnyddio Facebook yn hytrach na gwefan
- nid oedd gan ddau gyngor bresenoldeb electronig
- nid oedd gan lawer unrhyw fanylion am eu cynghorwyr na sut i gysylltu â nhw
- roedd gan rai cynghorau hen wefannau a oedd yn ymddangos wrth chwilio amdanynt, felly roeddech chi'n credu nad oedd unrhyw wybodaeth ddiweddar

O ganlyniad, argymhellodd JH, yn ei barn hi, y canlynol fel gofynion sylfaenol –

- cael gwefan
- enw parth hawdd sy'n ymddangos yn gymharol hawdd mewn chwiliadau
- dolen i wefan 'modern government' Sir Dinbych www.moderngov.denbighshire.gov.uk
- dylid cywiro'r ddolen ar wefan Cyngor Sir Ddinbych i wefan y Cynghorau Dinas, Tref neu Gymuned ac ni ddylai fod yn ddolen i hen safle
- dolen i wefan Llywodraeth Cymru www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-ac.htm
- roedd angen i unrhyw ddolenni ar www.politicsresources.net/area/uk/wa-councils/wa-council-dl.htm fod yn rhai cywir
- mae gwefan ddwyieithog yn hanfodol
- enw'r clerc gyda llun a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn
- enwau'r holl gynghorwyr gyda'u lluniau a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn
- dyddiadau, lleoliadau ac amseroedd cyfarfodydd
- rhaglenni
- cofnodion blaenorol
- manylion am yr ardaloedd y mae'r cyngor yn ei gwasanaethu gyda map os oes modd
- sut y gallai pobl gael eu cynnwys – bod yn gynghorydd, mynd i gyfarfodydd

Argymhellion ychwanegol dewisol –

- ffurflen ymholiadau electronig
- hanes yr ardal
- digwyddiadau yn yr ardal
- dolenni i wefannau grwpiau lleol eraill’

Yn olaf, yn dilyn y trafodaethau roedd y Rheolwr Cynnwys y Gymuned yn eu cael ar hyn o bryd gyda chlercod cynghorau, awgrymodd JH efallai bod gwerth ailadrodd yr ymchwil ymhen tua deuddeg mis i ganfod a fu unrhyw welliant o ran hygyrchedd gwybodaeth am Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned drwy dulliau electronig i’r cyhoedd.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i JH am ei gwaith caled a’i hadroddiad ardderchog ac adleisiodd aelodau eraill y teimladau hynny ac roedd cefnogaeth i gynnal adolygiad pellach ymhen deuddeg mis. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai’n trefnu i ddosbarthu’r adroddiad gan roi copi hefyd i’r Rheolwr Cynnwys y Gymuned i alluogi rhannu arfer da **[GW i weithredu]**

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Fel aelod o Gyngor Tref y Rhyl (CTRh), adroddodd y Cynghorydd Barry Mellor ar y diffyg cyhoedd sy’n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac mae’n credu fod hyn yn rhannol oherwydd nifer yr eitemau cyfrinachol ar y rhaglen a oedd yn golygu bod yn rhaid i’r cyhoedd adael a oedd yn arwain at y farn nad oedd yn werth chwli iddynt fod yn bresennol. Roedd gwefan CTRh yn cael ei thrawsnewid ar hyn o bryd ac yn cael ei huwchraddio’n sylweddol, ond roedd yn teimlo y dylid gwneud mwy yn gyffredinol i annog pobl ifanc i cymryd rhan
- trafododd yr aelodau’r ffordd orau o gynnwys pobl ifanc yn y broses a mesur rhywfaint o’r diddordeb ac awgrymodd y Cadeirydd gael cynllun peilot cychwynnol yn cynnwys ymweliad â chweched dosbarth Ysgol Bryn Hyfryd i amlinellu swyddogaeth, grymoedd a chyfrifoldeb Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Adroddodd y swyddog monitro ar waith yn y cyfnod hyd at yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 gan gynnwys sioeau teithiol ar gyfer ymgeiswyr posibl ac annog unigolion i gael eu cofrestru ac i gymryd diddordeb mewn pleidleisio. Roedd yn teimlo y byddai’n briodol i ystyried awgrym y Cadeirydd a graddau’r ymgysylltu â phobl ifanc ar y pryd, fel rhan o’r broses honno. Nodwyd bod y Cyngor yn cynnal ymweliadau ag ysgolion cynradd yn Siambr y Cyngor a theimlai’r Swyddog Monitro y byddai rhywfaint o werth mewn codi’r mater gyda chydweithwyr addysg i symud ymlaen ymhellach a’r mater a chysylltiadau posibl gyda’r Fagloriaeth Cymreig **[GW i weithredu]**
- Dywedodd y Cynghorydd David Jones fod canfyddiadau’r adroddiad yn adleisio ei ganfyddiadau wrth fynd i gyfarfodydd. Teimlai fod llawer yn dibynnu ar y safonau a set sgiliau’r clercod a bod ddeddfwriaeth fwy diweddar ar fynediad at wybodaeth, gan gynnwys darparu gwefan, wedi peri problemau i rai. Cytunodd ag argymhellion yr adroddiad ond nododd y byddai rhai yn cymryd amser ac arian i’w gweithredu, fel darpariaeth ddwyieithog. Awgrymodd JH y gallai’r Rheolwr Cynnwys y Gymuned ddarparu rhai termau dwyieithog generig a gwybodaeth safonol i gynghorau a fyddai’n eu galluogi i ganolbwyntio adnoddau ar darpariaeth ddwyieithog wedi’i theilwra

- dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai'r adroddiad yn ddefnyddiol iawn wrth gynllunio sesiynau hyfforddi i glercod er mwyn mynd i'r afael â materion perthnasol. Cyfeiriodd at y canllawiau statudol ar fynediad i wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref a oedd yn amlinellu'r gofynion sylfaenol ond dywedodd bod y cynghorau'n cael eu hannog yn weithredol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

Cydnabu'r Pwyllgor, er y byddai rhai o argymhellion yr adroddiad yn cymryd amser ac y byddai angen arian ychwanegol arnynt. Cydnabuwyd hefyd, er bod y ffocws wedi bod ar wella mewn rhai meysydd, roedd yr adroddiad wedi datgelu llawer o bethau cadarnhaol a gwaith rhagorol ac arfer da oedd yn cael ei wneud mewn cymunedau y gellid eu rhannu ar draws Sir Dinbych. Credai'r Aelodau fod archwiliad yn ymarfer gwerthfawr a gwerth chweil a oedd hefyd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gynghorau a chytunwyd i drefnu un pellach ymhen deuddeg mis.

***PENDERFYNWYD –***

*a) Derbyn a nodi'r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr Aelod Annibynnol Julia Hughes ar hygyrchedd gwybodaeth ar wefannau'r wyth Cyngor Dinas, Tref a Chymuned terfynol, a'r Adroddiad Trosolwg ar Gyfathrebu Electronig y Cynghorau Tref a Chymuned;*

*b) Yn anfon copïau o'r adroddiadau ynghyd â chanlyniad y trafodaethau mewn perthynas a'r archwiliad ymlaen at y Rheolwr Cynhwysiant Cymunedol, a fyddai'n cael cais i ymgysylltu a'r Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghylch y materion a godwyd **[GW i weithredu]**, a*

*c) Ychwanegu adolygiad i ganfod a oes gwelliant wedi bod o ran hygyrchedd gwybodaeth electronig ar Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ar gyfer y cyhoedd at raglen waith y pwyllgor ymhen deuddeg mis.*

## 8 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o'r rhifynnau diweddaraf o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2015 a Medi 2015 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a mis Hydref 2015 i fis Rhagfyr 2015 (Atodiad 2 i'r adroddiad). Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion bob chwarter blwyddyn ac roedd yn rhoi crynodeb o'r cwynion cod ymddygiad yr oedd yr Ombwdsmon wedi gorffen ymchwilio iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

Roedd manylion y cwynion a archwiliwyd yn ystod y cyfnodau hyn wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a'u crynhoi gan y Dirprwy Swyddog Monitro –

**Mis Gorffennaf i fis Medi 2015 –** ymchwiliwyd i 6 o gwynion a daethpwyd i'r casgliad yn ystod y cyfnod hwn gyda 4 yn ymwneud â datgan cysylltiad. O'r 6 ymchwiliad a gynhaliwyd, daethpwyd i'r canlyniad nad oedd digon o dystiolaeth o dorri cod mewn 5 achos, a chafodd un ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru, a arweiniodd at wahardd yr aelod dan sylw am dri mis. Roedd yn amlwg yn yr achos hwnnw bod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad drwy fethu â datgan cysylltiad

personol a oedd yn rhagfarnu ac wedi aros yn yr ystafell tra bod materion yn ymwneud â’r cysylltiad hwnnw wedi eu trafod a’u pleidleisio arnynt. Nid oedd unrhyw achosion wedi eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau.

**Mis Hydref i fis Rhagfyr 2015 –** cynhaliwyd a chwblhawyd 3 ymchwiliad yn ystod y cyfnod hwn. Daeth 2 i’r casgliad nad oedd angen gweithredu ymhellach a daeth 1 i’r casgliad nad oedd tystiolaeth o dorri’r rheolau. Roedd yr achos hwn yn cyfeirio at aelod a oedd wedi datgan cysylltiad personol ac amlygodd yr angen i aelodau ddatgan yn gywir, yn enwedig ar gyfer materion parhaus, a allai adael aelodau’n agored i honiadau o dorri rheolau fel yn yr achos hwn. Nid oedd unrhyw achosion wedi cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

Nododd yr Aelodau bod rhai o'r crynodebau achos mor gryno ei bod yn anodd canfod amgylchiadau'r gŵyn ac felly'n anodd cymryd unrhyw arweiniad ohonynt. Teimlai'r Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol gwybod a oedd y gŵyn wedi ei gwneud gan gyd-gynghorydd neu'r cyhoedd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn Llyfr Achos y Cod Ymddygiad.*

**9 DIGWYDDIAD HYFFORDDIANT CLERCOD – IONAWR 2016**

Rhoddodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad llafar ar y digwyddiad hyfforddi diweddaraf a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2016 yn Nhŷ Russell, Y Rhyl lle’r oedd 3 clerc yn bresennol o Fodelwyddan, Rhuthun a Llanferres.

Roedd yr hyfforddiant wedi ei gynnal ar gais yr aelodau i gynnig cyfle pellach i glercod yng ngogledd y sir fod yn bresennol. Er bod 5 clerc wedi archebu lleoedd ar y digwyddiad, roedd 2 wedi tynnu'n ôl yn ddiweddarach oherwydd profedigaeth deuluol a salwch. Fodd bynnag, roedd adborth y rhai a oedd yn bresennol wedi bod yn gadarnhaol ac roedd yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad gwerth chweil. Roedd yr hyfforddiant yn adlewyrchu'r hyn a wnaed ar 19 Mai 2015 yn ne'r sir lle’r oedd 7 clerc yn bresennol ynghyd â rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau. O gofio bod 37 Cyngor Dinas, Tref a Chymuned, a bod 1 clerc yn gweinyddu saith o'r cynghorau hynny, nodwyd bod 10 o'r 30 clerc posibl yn bresennol ar gyfer yr hyfforddiant. Roedd digwyddiadau wedi eu gwasgaru rhwng gogledd a de'r sir a digwyddiadau’r bore a’r prynhawn. Rhoddwyd ystyriaeth i gael sesiwn hyfforddi gyda'r nos yn i geisio cynyddu presenoldeb.

Roedd yr aelodau'n falch i nodi bod y ddau glerc newydd ar gyfer Bodelwyddan a Rhuthun yn bresennol. Nid oedd y Dirprwy Swyddog Monitro wedi bod yn ymwybodol o unrhyw ddirprwy glercod ond cytunodd i ymestyn y gwahoddiad i ddirprwy glercod ar gyfer digwyddiadau hyfforddi yn y dyfodol. Roedd dyddiadau hyfforddi yn y dyfodol eto i'w drefnu, ond roedd yn debygol o fod yn yr hydref. Ychwanegodd y Swyddog Monitro y gellid hefyd anfon gwahoddiadau at gadeiryddion y cyngor yn ogystal â'r clercod i hyrwyddo'r digwyddiad a phresenoldeb ymhellach.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr hyfforddiant a ddarperir gan y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro a’r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i annog presenoldeb.

***PENDERFYNWYD*** *nodi’r diweddariad llafar ar Ddigwyddiad Hyfforddi’r Clercod.*

Ar y pwynt hwn (11.15 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 10 BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi gwybod i’r aelodau am ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft sy’n gysylltiedig â'r pwyllgor.

Cyfeiriwyd at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddarpariaethau’r Mesur Drafft ynghyd ag ymateb y Cyngor. Roedd 8 rhan i'r Mesur Drafft a fyddai, o’u gweithredu, yn arwain at y diwygiadau llywodraeth leol mwyaf sylweddol yng Nghymru ers Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhoddodd y Swyddog Monitro drosolwg cyffredinol o brif ddarpariaethau'r Mesur Drafft, gan gynnwys cynigion uno, ond dywedodd mai’r rhan fwyaf perthnasol i'r pwyllgor oedd Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau, a oedd yn ceisio cyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar aelodau etholedig. Ymhelaethodd ar y darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 4 a oedd yn cynnwys y canlynol -

- rhaid i Aelod fod yn bresennol ym mhob cyfarfod perthnasol oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio - nid oedd unrhyw newid i'r gofyniad cyfreithiol bod Aelod yn cael ei ddiarddel os yw ef / hi yn methu â bod yn bresennol am 6 mis
- rhaid i Aelod gynnal o leiaf pedwar cymhorthfa ym mhob 12 mis ar ôl cymryd ei swydd oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio, gyda manylion y gymhorthfa’n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ymlaen llaw
- rhaid i Aelod ymateb i'r holl ohebiaeth a anfonir i’w gyfeiriad/chyfeiriad swyddogol o fewn 14 diwrnod o’i derbyn oni bai bod ganddo/ ganddi reswm da dros beidio â gwneud
- rhaid i Aelod gwblhau'r holl gyrsiau hyfforddi gorfodol oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio â gwneud
- rhaid i Aelod lunio adroddiad blynyddol o'u gweithgareddau aelodau y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a gyhoeddwyd - nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cael rheswm da dros beidio â gwneud hyn
- gosodir dyletswydd personol ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau a chymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau - rhaid i’r Pwyllgorau Safonau drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau a monitro eu cydymffurfiad â'r ddyletswydd hon.

Roedd y Bil Drafft yn awgrymu mecanwaith gorfodi ar gyfer torri rheolau fel a ganlyn -

- gall unrhyw un wneud cwyn i'r Swyddog Monitro am achos lle mae'n bosibl fod Aelod wedi mynd yn groes i unrhyw un o'r dyletswyddau a nodir uchod, ac eithrio i lunio adroddiad blynyddol
- rhaid i'r Swyddog Monitro gyfeirio unrhyw gŵyn a dderbynnir i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a gyda'i gilydd, rhaid iddynt benderfynu a ddylid ymchwilio i'r mater
- os byddai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn credu fod Aelod wedi torri'r ddyletswydd i lunio adroddiad blynyddol gallai ef / hi ei gyfeirio at y Swyddog Monitro a fyddai'n gorfod ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ynghylch yr angen i ymchwilio
- os byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal, mae'n rhaid darparu adroddiad i'r Pwyllgor Safonau gydag unrhyw argymhellion roedd y Swyddog Monitro yn teimlo a oedd yn briodol
- os byddai'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod Aelod wedi torri un o'r dyletswyddau gallai gyflwyno cerydd, a gwaharddiad neu waharddiad rhannol am hyd at chwe mis neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor hefyd at ymateb y Cyngor i Ran 4 y Bil Drafft a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad.  Yn fyr, roedd yr ymateb wedi'i fesur ac er bod aelodau wedi ymateb yn gadarnhaol i rai agweddau ar y Bil Drafft o ran llywodraethu, adolygiadau cyfoedion a rheoleiddio archwilio ac arolygu, roedd rhai elfennau yn rhy ragnodol, gan greu mwy o fiwrocratiaeth a chostau ar adeg o galedi ac roedd yna hefyd rai datganiadau anghyson.  Un rhwystredigaeth fawr oedd y diffyg diffiniad ynghylch beth fyddai rheswm da wrth orfodi'r dyletswyddau newydd a phryder o ran y mecanwaith gorfodi ar gyfer torri'r rheolau.  Roedd gan y cynigion y potensial o gynyddu llwyth gwaith y Swyddogion Monitro a'r Pwyllgorau Safonau yn sylweddol ac arwain at greu cyfundrefn safonau unigol y tu allan i ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad.  Yn olaf, cyfeiriwyd at faterion eraill gan gynnwys trefniadau etholiadol yn ystod cyfnod pontio ac yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol.  Roedd disgwyl i gynghorau cymuned llai niferus, mwy o faint gyfateb yn agos â'r pwyllgorau ardal gymunedol.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i roi eglurhad ar feysydd penodol o'r Mesur Drafft gyda'r Swyddog Monitro a nododd agweddau cadarnhaol a meysydd a oedd yn peri pryder fel yr amlygwyd yn ymateb y Cyngor.  Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- pe bai’r uno’n digwydd roedd y Cyngor yn parhau i fod o'r farn y dylai Sir Ddinbych uno â Chonwy. Credai'r Cadeirydd y gellid gwneud achos cryf drwy ddadlau y byddai'r Gymraeg yn cael ei chefnogi’n well drwy greu tri awdurdod yn hytrach na dau yng Ngogledd Cymru fel y cyfeirir ato ar dudalen 10 y ddogfen ymgynghori
- roedd yn bosibl y gellid cynnwys y diffiniad ynghylch beth fyddai’n cael ei ystyried yn rheswm da mewn canllawiau yn y dyfodol ac os nad oedd esboniad diffiniol byddai’n debyg o gael ei ddiffinio mewn cyfraith achosion yn y dyfodol
- roedd rhai anghysondebau rhwng bwriad swyddogion a realiti darpariaethau drafft, fel gwe-ddarlledu’r Pwyllgorau Ardal Gymunedol
- trafodwyd creu Pwyllgorau Ardal Gymunedol statudol ynghyd â'u grymoedd a’u cyfrifoldebau - roedd rhai cynghorwyr sir wedi mynegi pryder ynghylch yr hyn roeddent yn ystyried i fod yn erydu grymoedd awdurdodau lleol
- ystyriwyd y cynnydd posibl yn llwyth gwaith y Pwyllgor Safonau a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai angen talu aelodau annibynnol am ddod i unrhyw gyfarfodydd ychwanegol
- Mynegwyd pryderon y byddai’r gostyngiad yn nifer y cynghorau cymuned yn arwain at wneud cymunedau yn anghysbell ac yn atal unigolion rhag cynrychioli'r ardaloedd hynny, ac amlygwyd hefyd bwysigrwydd cadw asedau cymunedol presennol. Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r newid roi cyfle i ymgeiswyr gyda mwy o gymysgedd sgiliau a chymhwysedd
- gallai'r gofyniad am glerc cymunedol gyda chymhwyster proffesiynol perthnasol beri baich ariannol sylweddol ar rai cynghorau cymuned ac nid oedd yn glir a fyddai'r hawliau taid yn berthnasol i glercod presennol nad oedd yn bodloni'r gofyniad newydd
- tra'n cydnabod y rhesymeg y tu ôl i'r cyfyngiadau ariannol arfaethedig sydd i'w gosod ar yr awdurdodau sy’n uno mynegwyd pryderon y gallai fod yn rhwystr i awdurdodau lleol o ran darparu gwasanaethau - nodwyd y byddai arweiniad pellach ar y cyfyngiadau ariannol yn dilyn yn yr haf
- trafododd yr amserlen ar gyfer creu’r ardaloedd llywodraeth leol newydd ynghyd â'r broses ar gyfer sefydlu cynghorau newydd a threfniadau pontio. Nodwyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i nifer priodol o gynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd. Roedd rhywfaint o bryder y gallai'r amserlen chwe blynedd sy’n rhychwantu diwedd y cynghorau presennol a sefydlu rhai newydd fod yn rhwystr i ymgeiswyr posibl ac yn arwain at densiynau rhwng y rhai a etholwyd yn y gwahanol awdurdodau. Yn ei ymateb roedd y Cyngor wedi mynegi pryder y byddai dau dymor tair blynedd yn cyfyngu ar allu’r naill Gyngor neu’r llall i fod yn uchelgeisiol a gwneud gwelliannau sylweddol i’w gwasanaethau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei adroddiad cynhwysfawr a -

***PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y Bil Drafft ac ymateb Y Cyngor i'r ymgynghoriad drafft a amlinellir yn Atodiad 3.*

**11 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Adroddodd Aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn –

Ni adroddodd y Cynghorydd Barry Mellor unrhyw broblemau gyda chyfarfodydd y Cyngor Sir a’r Pwyllgor Cynllunio roedd wedi mynd iddynt yn ddiweddar. Fodd bynnag, roedd presenoldeb gwael yn bryder yn rhai o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a oedd yn fater anodd i'w ddatrys. Roedd cofnodion presenoldeb Cynghorwyr wedi eu dosbarthu’n ddiweddar i Arweinwyr y Grwpiau a’u rhannu gyda'u grwpiau ond wrth i ddiwedd tymor y Cyngor nesáu ac i’r uno symud ymlaen teimlai y gallai presenoldeb barhau i fod yn broblem.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Jones at ei bresenoldeb yng Nghyngor Cymuned Derwen yng Nghlawdd Newydd ar 16 Medi 2015. Roedd wedi derbyn y gwaith papur perthnasol ar gyfer y cyfarfod ar ôl cyrraedd ac roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod ac roedd cefnogaeth dda gan y Cynghorydd Sir lleol, Eryl Williams. Cafwyd trafodaethau da trwy gydol y cyfarfod ar ystod o bynciau lleol ac roedd y clerc yn fedrus ac yn brofiadol iawn ac roedd y cyfarfod wedi rhedeg yn dda.

Darparodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes drosolwg manwl o saith cyfarfod unigol yr oedd wedi bod iddynt, a dyma grynodeb ohonynt -

Cyngor Cymuned Bryneglwys (1 Chwefror 2016) - roedd gan y Cadeirydd ffordd dda o gadeirio, gan sicrhau bod y cyfarfod yn rhedeg yn esmwyth a bod eitemau’n cael sylw trylwyr. Roedd y Clerc yn barod iawn i helpu, yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn cynorthwyo pawb a oedd yn bresennol. Roedd pob aelod yn parchu ei gilydd ac yn cymryd rhan yn y cyfarfod fel y bo'n briodol ac wedi helpu i sicrhau bod pob maes yn cael sylw.

Cyngor Cymuned Llandrillo (5 Chwefror 2016) - roedd y Cadeirydd, gyda chymorth y Clerc, wedi sicrhau bod y cyfarfod yn rhedeg yn esmwyth a bod eitemau’n cael sylw trylwyr. Roedd y Clerc yn barod iawn i helpu, yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn cynorthwyo pawb a oedd yn bresennol. Roedd pob aelod yn parchu ei gilydd ac yn cymryd rhan fel y bo'n briodol ac wedi helpu i sicrhau bod pob maes yn cael sylw ac wedi helpu cytuno ar gamau i'w cymryd ac yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb am rai o'r camau hynny yn ôl yr angen.

Cyngor Tref Corwen (10 Chwefror 2016) - Cafwyd cyfraniad ardderchog gan y Cynghorydd Sir lleol Huw Jones ar nifer o eitemau. Sicrhaodd y Cadeirydd, gyda chymorth y Clerc, bod y cyfarfod yn rhedeg yn esmwyth a bod eitemau’n cael sylw trylwyr ac roedd y Clerc yn effeithlon iawn. Roedd pob aelod yn parchu ei gilydd ac yn cymryd rhan fel y bo'n briodol ac wedi helpu i sicrhau bod pob maes yn cael sylw ac wedi helpu cytuno ar gamau i'w cymryd ac yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb am rai o'r camau hynny yn ôl yr angen.

Cyngor Cymuned Gwyddelwern (15 Chwefror 2016) – Roedd cyfarfodydd fel arfer yn cael eu cynnal yn Gymraeg a darllenwyd nodiadau'r cyfarfod blaenorol, fel y nodwyd yn y llyfr cofnodion, heb fod unrhyw gopïau caled ar gael. Yn dilyn y cyfarfod, eglurwyd bod eu gwefan yn cael ei datblygu. Cafwyd trafodaeth am yr hyn y gallai'r cyhoedd edrych amdano yn ymwneud â chynghorau cymuned a chael safle dwyieithog a oedd yn hygyrch i bobl yn Gymraeg neu Saesneg. Nid oedd yn glir a oedd hysbysfwrdd y pentref yn cael ei ddefnyddio i roi rhybudd o gyfarfodydd a’r rhaglen. Amlygwyd pwysigrwydd hygyrchedd a thryloywder. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y Gymraeg ac nid oeddent eisiau mynd drwy'r un materion â

Chyngor Cymuned Cynwyd a byddent yn gwerthfawrogi rhywfaint o arweiniad pellach. Cadarnhaodd Ms Hughes ei bod wedi e-bostio’r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro mewn perthynas â hynny.

Cyngor Tref Llangollen (16 Chwefror 2016) - Roedd yn gyfarfod ffurfiol a phroffesiynol iawn gyda nifer o eitemau’n cael eu trafod a chytundebau trwy gynigion, eilio a phleidleisio. Roedd y rhaglen ar PowerPoint ar y sgrin ac roedd adroddiad ysgrifenedig ar y sgrin ar gyfer pob eitem a lluniau fel y bo'n briodol. Roedd rhaglen gyhoeddus a ffeil bapurau wedi’i argraffu ac yng nghefn yr ystafell.

Pwyllgor Cynllunio - Cyngor Sir Ddinbych (17 Chwefror 2016) - Roedd y cyfarfod i’w weld trwy'r ddolen gwe-ddarlledu byw ac roedd yn broffesiynol iawn ac wedi’i reoli'n dda gyda rheolaeth dda gan y Cadeirydd. Roedd rhai problemau gyda'r llif yn dilyn y cyfieithiad Cymraeg ac o bryd i’w gilydd nid oedd y llif sain ar gyfer y Saesneg yn dychwelyd am gyfnod hir. Adroddodd y Swyddog Monitro fod arddull tŷ’r cofnodion yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gallai hynny arwain at newidiadau. Adroddodd hefyd ar gynlluniau i ymestyn a buddsoddi yng nghyfleusterau gwe-ddarlledu’r Cyngor a ddylai wella perfformiad.

Cyngor Cymuned Cynwyd (1 Mawrth 2016) - Iaith y cyngor oedd Cymraeg ond gallai'r Clerc neu unrhyw aelod o'r cyngor gyfieithu os oedd angen. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r cyfarfod ar ddatblygu gwefan y cyngor. Trafodwyd yr anawsterau o ran argraffu’r cofnodion yn y papur newydd cymunedol a'r gobaith y byddai modd ei ddatrys cyn gynted â phosibl. Cyfeiriwyd hefyd at y gŵyn ac adroddiad dilynol yr Ombwdsmon y dylai'r cyngor hefyd ddarparu dogfennau yn Saesneg. Roedd rhai materion yn parhau o ran datblygu gwefan y cyngor a hygyrchedd gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hadborth a oedd wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi’r adroddiadau llafar oddi wrth aelodau a fu yn y cyfarfodydd.*

**12 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nododd yr Aelodau bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi’i drefnu ar gyfer 10.00am ddydd Gwener 24 Mehefin 2016 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthu

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bod yr eitemau canlynol yn cael eu trafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y diffinnir hi ym Mharagraff 14 Rhan 4, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**13 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (MO) adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd eisoes) yn darparu trosolwg o'r cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn yr aelodau ers 1 Ebrill 2015. Dywedodd nad oedd naw achos wedi cael sylw gan yr Ombwdsmon ac roedd un cwyn heb ei datrys.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.